CYMHWYSTER BAGLORIAETH CYMRU

DIPLOMA UWCH

SUT AETH YR AIL GYLCH ARHOLI (2004-06)?

CBC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YX

CYNNWYS

Cynnwys 2

Cyflwyniad 3

1. Beth yw Bagloriaeth Cymru? 4

2. Faint o ymgeiswyr safodd CBC? Sut gwnaethon nhw? 5

3. Pa mor 'alluog' oedd yr ymgeiswyr a safodd CBC? 7

4. Pa gyrsiau Opsiynau a ddilynodd yr ymgeiswyr? 10

5. Sut gwnaeth yr ymgeiswyr yng Nghydrannau Craidd CBC? 12

- **Sgiliau allweddol** 12
- **Yr Ymchwiliad Unigol** 15
- **Y dyddiaduron/datganiadau dilysu** 17

6. Sut gwnaethon nhw yn eu Opsiynau? 20

7. Pam methodd rhai ymgeiswyr? 21

8. Amcangyfrifon athrawon 22

9. Materion gweinyddol 23

10. Felly, pa gasgliadau y gallwn ddod iddynt wedi CBC 2006? 24

CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad hwn, '*Sut aeth yr Ail Gylch Arholi (2004-06)?* yn dilyn yr un arddull a fabwysiadwyd gan yr Adroddiad cyntaf a gynhyrchwyd yn 2005 a'r un amcanion sydd iddo, sef rhoi:

- gwybodaeth ynghylch pa mor llwyddiannus oedd yr ymgeiswyr a ddilynodd y Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru rhychwantol yn yr ail gylch arholi llawn; a

- chyngor ynghylch y rhannau hynny o'r rhaglen CBC a oedd yn llwyddiannus a'r rheini y mae angen rhoi sylw iddynt.

Mae Tîm Prosiect CBC yn awgrymu mai'r ffordd orau o ystyried y negeseuon cyffredinol sydd yn yr adroddiad hwn yw drwy drafod ag athrawon. Felly, y prif ganfyddiadau oedd fframwaith y cyfarfodydd adborth a gynhaliwyd yng ngogledd, de-orllewin a de-ddwyrain Cymru yn ystod rhan ganol tymor yr hydref, 2006. Roedd y gweithdai'n rhan bwysig o'r cyfarfodydd hyn, pryd bu athrawon yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun enghreifftiau o waith ymgeiswyr. Er mwyn manteisio'n llawn ar yr Adroddiad hwn, dylid ei ddarllen ar y cyd â'r enghreifftiau a gaiff eu dosbarthu i bob canolfan CBC.

Mae'r Adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth sy'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau, yn arbennig:

- cyrhaeddiad blaenorol yr ymgeiswyr yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 (TAG neu gymhwyster cyfatebol);

- ystadegau a gwaith a gyflwynwyd ar gyfer Dyfarniad Uwch 2006;

- Adroddiad y Safonwyr

- amrediad eang o ddata o holiaduron ac ymweliadau â chanolfannau.

Mae Tîm y Prosiect o'r farn mai'r athrawon a'u hymgeiswyr yw'r bobl bwysicaf wrth ddatblygu CBC, a'r gobaith yw y bydd yr Adroddiad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt wrth iddynt baratoi at gam nesaf CBC.

Peter Davies, Neil Owens, Nia Williams
Hydref 2006

1. BETH YW BAGLORIAETH CYMRU?

Beth yw'r Fagloriaeth?

Cymhwyster rhychwantol ôl-16 yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) sy'n cydnabod cyrhaeddiad ymgeiswyr ar lefelau 2 a 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NVQ).

Mae'r rhaglen astudio'n cynnwys Craidd ac Opsiynau. Mae pedair cydran i'r Craidd:

- Sgiliau allweddol
- Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB)
- Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG)
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).

Yr Opsiynau yw'r pynciau a'r cyrsiau megis TAG, TAAU, NVQ a BTEC sy'n creu rhaglen astudio lawn yr ymgeisydd.

Yn ogystal, mae pob ymgeisydd yn gweithio gyda thiwtor personol sy'n rhoi cefnogaeth ac arweiniad cyffredinol.

Beth sydd angen i'r ymgeiswyr ei wneud i gyflawni'r Diploma Uwch?

Dyfernir Diploma Bagloriaeth Cymru ar naill ai lefel 2 (Canolradd) neu lefel 3 (Uwch) i ymgeiswyr sy'n cwblhau pob rhan o CBC (Craidd ac Opsiynau) i'r safon angenrheidiol. Y gofynion asesu i'r Dyfarniad Uwch gan gynnwys y Craidd a'r Opsiynau yw:

Craidd	Dewisiadau
• Tri sgìl allweddol ar lefel 3, rhaid i un ohonynt fod o'r tri sgìl allweddol cyntaf gyda'r sgiliau allweddol eraill ar lefel 2 • Cofnodion/adroddiadau ynghylch Gweithio gyda Chyflogwr, Gweithgarwch Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol. • Ymchwiliad Unigol ar lefel 3. • Tystiolaeth o waith ar y Modiwl Iaith.	Dwy radd A-E TAG Uwch neu NVQ Lefel 3 neu Dystysgrif Genedlaethol BTEC ar lefel llwyddo neu gymhwyster cyfatebol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sut perfformiodd yr ymgeiswyr a ddilynodd y cymhwyster rhychwantol hwn yn ei ail flwyddyn 'yn fyw', ac wrth wneud hynny, mae'n rhoi cyngor i athrawon ynghylch y rhannau hynny o'r rhaglen a oedd yn llwyddiannus a'r rhai y mae angen sylw arnynt.

2. FAINT O YMGEISWYR SAFODD CBC? SUT GWNAETHON NHW?

Nifer yr ymgeiswyr

Ychydig o ffeithiau am yr hyn a gyflawnwyd (sylwer: ffigurau cylch 2003-2005 yw'r rhai mewn cromfachau gydol yr adroddiad hwn).

- 835 (499) oedd cyfanswm y cofrestriadau am y Diploma Uwch yn 2006 , o'r rheini cwblhaodd 635 neu 76% y rhaglen (299 neu 60%). Mae'r ffigurau 'cofrestriadau' yn cynrychioli nifer yr ymgeiswyr oedd yn anelu at Ddyfarniad Bagloriaeth Uwch eleni, fel y'u nodwyd gan 10 ysgol a 11 coleg ym mis Chwefror 2006. Dyfarnwyd Diploma Uwch CBC i 559 ymgeisydd, sef 88% o'r 635 a gwblhaodd y rhaglen (255 neu 85.3%).

- Dyfarnwyd Tystysgrif Craidd Uwch CBC i 28 (17) ymgeisydd arall. Mae hyn yn ei hun yn gamp sylweddol ar ran yr ymgeiswyr hyn, gan gynnwys pob un o'r 6 sgìl allweddol. Fodd bynnag, yn y cam hwn maen nhw wedi syrthio'n brin o'r Dyfarniad Diploma llawn oherwydd na lwyddwyd i ateb gofynion yr Opsiynau (h.y. Safon Uwch/NVQ lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol). Felly cyflawnodd cyfanswm o 587 (272) ymgeisydd y Dystysgrif Craidd, sef 92% (91%) o'r 635 a gwblhaodd y rhaglen.

- Mae'r 48 ymgeisydd sy'n weddill wedi ennill cyfartaledd o 3 chymhwyster sgiliau allweddol yr un ond ni lwyddwyd i gyflawni'r Diploma oherwydd iddynt syrthio'n brin o'r amrediad llawn o ofynion. Mae natur gronnus CBC yn golygu os bydd yr ymgeiswyr hyn yn cyflawni'r rhannau o'r Cymhwyster sy'n weddill yn y flwyddyn academaidd i ddod, gallant ddewis rhoi cynnig eto i gael y Diploma Uwch yn 2007.

A ddaeth yr ymgeiswyr o ysgolion neu o golegau?

Roedd ymgeiswyr y Diploma Uwch yn 2006 yn dod o 10 ysgol a 11 coleg a oedd yn rhan o'r rhaglen beilot. Dangosir yn Nhabl 1 isod ddosbarthiad cyfanredol fesul ysgolion/colegau a fesul rhyw gogyfer â'r ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen, ac i'r rhai y dyfarnwyd y Diploma iddynt.

Ymgeiswyr	Cyfanswm	Ysgolion	Colegau	Gwryw	Benyw
Wedi cwblhau CBC	635 (299) 76% (59%)	350 (160) 55% (54%)	285 (139) 45% (46%)	217 (94) 34% (31%)	418 (205) 66% (69%)
Dyfarnwyd Diploma Uwch	559 (255) 88%(85%)	316 (139) 57% (55%)	243 (116) 43% (45%)	190 (82) 34% (32%)	369 (173) 66% (68%)

Tabl 1:
Cwblhau a chyflawni

O'r 635 ymgeisydd a gwblhaodd raglen y Fagloriaeth, ymgeisiodd 588 neu 93% (202 – 68%) i gael mynediad i addysg uwch.





Pam na lwyddodd rhai ymgeiswyr i gwblhau Rhaglen CBC?

Fel rhan o'r gwerthusiad o'r rhaglen beilot, gofynnwyd i athrawon i roi'r rhesymau tebygol pam na chwblhaodd y 200 ymgeisydd o'r cyfanswm o 835 o gofrestriadau Mae'r rhesymau amlycaf am fethu cwblhau'n ymwneud â'r canlynol (Tabl 2):

Nododd 3% (11%) eu bod eisiau gohirio tan 2007.
Nododd 1.5% (4%)iddynt adael eu hysgol neu'r coleg i gael gwaith.

Ni lwyddodd 16% (34%) o'r ymgeiswyr a gofrestrwyd i gwblhau Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ond arhoson nhw yn yr ysgol neu'r coleg i gwblhau eu rhaglenni astudio eraill: Y ddau brif reswm a nodwyd gan y grŵp yma o ymgeiswyr dros beidio â chwblhau'r Diploma Uwch oedd anhawster wrth gwblhau:

(a) y gofynion sgiliau allweddol (52.5%);
(b) yr Ymchwiliad Unigol (45.8%);
(c) y rhaglenni Opsiynau (1.7%).

Awgrymwyd nad yw unrhyw ymgeisydd yn ei chael hi'n anodd cwblhau gofynion y cwricwlwm Craidd.

Tabl 2:
Rhesymau am fethu cwblhau

Fodd bynnag, bu i fwyafrif clir o'r ymgeiswyr na chwblhaodd ddal ati'n llwyddiannus gyda'r rhan fwyaf o'u rhaglen astudio, er na lwyddwyd i gyflawni gofynion llawn y Diploma Uwch.

3. PA MOR 'ALLUOG' OEDD YR YMGEISWYR A SAFODD CBC?

Cafwyd gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol yr ymgeiswyr yng Nghyfnod Allweddol 3 a TGAU, neu gymhwyster cyfatebol, i'r rhai a gwblhaodd y rhaglen dwy flynedd CBC Uwch yn 2006 ac i'r rhai na lwyddodd. Dadansoddwyd y data ei hun o ran:

- cyfanswm y cofrestriadau;
- gwrywod a benywod;
- colegau ac ysgolion.

Ymgeiswyr a gwblhaodd rhaglen CBC

Roedd 635 o'r ymgeiswyr hyn, gyda 217 gwryw a 418 benyw. Dilynodd 350 raglen CBC mewn colegau a 285 mewn ysgolion.

Mae'r data'n dangos sgoriau'r ymgeiswyr i gyd mewn Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Chymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 ac mewn TGAU neu gyrsiau cyfatebol.

Cyfnod Allweddol 3

Ysgolion: 349 ymgeisydd: lefel gymedrig – 6.1 (cyfartaledd cenedlaethol 5)

Mathemateg			**Saesneg**			**Gwyddoniaeth**			**Cymraeg**		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
6.2	6.2	6.1	6.0	5.7	6.2	6.1	6.0	6.1	6.1	5.9	6.1

Colegau: 285 ymgeisydd: lefel gymedrig – 5.6

Mathemateg			**Saesneg**			**Gwyddoniaeth**			**Cymraeg**		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
5.5	5.6	5.6	5.6	5.4	5.5	5.4	5.2	5.3	5.9	5.7	5.9

Tabl 3:
Sgoriau CA3 mewn ysgolion a cholegau

- roedd y lefel gymedrig a gyflawnwyd yn CA3, 5.9, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, 5.0;

- 6.1 oedd y lefel gymedrig a gyflawnwyd mewn ysgolion, fwy neu lai'r un fath ag yn 2005. Roedd y lefel gymedrig mewn colegau ychydig yn is, 5.6, ond mae hyn hefyd ychydig yn uwch na'r lefel yn 2005, 5.3;

- roedd y cyflawniad yn ddigon tebyg dros y pedwar pwnc i'r ymgeiswyr mewn ysgolion a cholegau.

TGAU, COEA, GNVQ

Ysgolion: TGAU cymedr – 9.1

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig: 9.1 • Roedd gan 0.4% lai na 4 A*-C • Doedd dim un ymgeisydd wedi methu cael o leiaf 1 TGAU • Cafodd 85.2% 8 TGAU neu ragor	Roedd gan 2 ymgeisydd CoEA, a'r ddau wedi pasio mewn 1 pwnc.	Roedd gan 22 ymgeisydd GNVQ mewn TGCh neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Colegau: TGAU cymedr – 7.7

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig: 7.7 • Roedd gan 0.8% lai na 4 A*-C • Methodd 7 ymgeisydd gael o leiaf 1 TGAU • Cafodd 66.2% 8 TGAU neu ragor	Roedd gan 39 (18.8%) yr ymgeiswyr CoEA gyda chymedr llwyddo o 1.3 pwnc.	Roedd gan 12 ymgeisydd (11 benyw, 1 gwryw) GNVQs mewn Busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TGCh, Hamdden a Thwristiaeth, Hamdden Lefel 1

Tabl 4:
Sgoriau TGAU, COEA, GNVQ mewn ysgolion a cholegau

- mae'r gwahaniaeth rhwng ysgolion a cholegau'n cynyddu o CA3 i TGAU neu gymhwyster cyfatebol;
- mae gwahaniaeth arwyddocaol o ran cyflawniad mewn TGAU rhwng yr ysgolion a cholegau, (ysgolion 9.1, colegau 7.7);
- mae'r cyferbyniad hwn yn parhau gyda nifer o nodweddion eraill megis (a) y ganran sy'n cael 8 TGAU neu ragor (ysgolion 85.2%, colegau 66.2%), (b) y nifer sydd â COEA yn amrywio o 2 ymgeisydd â'r cymhwyster hwn mewn ysgolion i 39 neu 18.8% mewn colegau, a (c) nifer yr ymgeiswyr a gwblhaodd GNVQ yn llwyddiannus.

Ymgeiswyr na chwblhaodd raglen CBC

Mae'r data'n ymwneud â'r grŵp yma o 200 ymgeisydd fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol 3

Ysgolion:109 ymgeisydd: lefel gymedrig – 5.7 (cyfartaledd cenedlaethol 5)

Mathemateg			Saesneg			Gwyddoniaeth			Cymraeg		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
5.6	5.7	5.6	5.6	5.6	5.4	5.7	5.8	5.8	6.1	5.9	6.1

Colegau:91 ymgeisydd: lefel gymedrig – 5.4

Mathemateg			Saesneg			Gwyddoniaeth			Cymraeg		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
5.4	5.8	2.3	5.4	5.4	5.3	6.3	4.0	7.0	5.9	5.7	5.9

Tabl 5:
Sgoriau CA3 mewn colegau ac ysgolion – ymgeiswyr na chwblhaodd

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod cyflawniad ymgeiswyr yn KS3 yn achos yr ysgolion a'r colegau'n ychydig yn is i'r grŵp yma na'r rhai a gwblhaodd CBC.

TGAU, COEA, GNVQ

Ysgolion: 110 ymgeisydd: TGAU cymedr – 8.5

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig: 8.5 • Roedd gan 11.1% lai na 4 A*-C • Methodd 4.8% o'r ymgeiswyr gael o leiaf 1 TGAU • Cafodd 67.5% 8 TGAU neu ragor	Nid oedd CoEA gan un ymgeisydd.	Roedd gan 3 ymgeisydd GNVQ mewn TGCh neu Hamdden a Thwristiaeth.

Colegau: 91 ymgeisydd: TGAU cymedr – 5.0

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig: 5.0 • Roedd gan 27.2% lai na 4 A*-C • Methodd 9.9% o'r ymgeiswyr gael o leiaf 1 TGAU • Cafodd 36.4% 8 TGAU neu ragor	Roedd gan 2 ymgeisydd COEA, a phob un wedi pasio un pwnc.	Roedd gan 10 ymgeisydd GNVQ mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TGCh, Hamdden a Thwristiaeth, a Pheirianneg

Tabl 6: Sgoriau TGAU, COEA, GNVQ mewn ysgolion a cholegau

Unwaith eto, nid oedd y rhai na chwblhasant mor llwyddiannus â'r rhai a gwblhaodd y rhaglen lawn.

Pa gasgliadau cyffredinol y gellir eu gwneud o'r data yma?

- Mae data Cyfnod Allweddol 3 yn awgrymu bod y garfan gyfan (y rhai a gwblhaodd a'r rhai na chwblhaodd) wedi cyflawni sgoriau ychydig yn uwch na'r cyfartaledd (lefel 5). Yn y patrwm hwn roedd gwahaniaethau bychain o ran cyflawniad rhwng gwryw/benyw ac ysgolion/colegau. Ymddengys fod ymgeiswyr yn gwneud ychydig yn well mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth na mewn Saesneg. Roedd y cyflawniad mewn Cymraeg ychydig yn well na'r cyflawniad mewn Saesneg.

- Roedd gwahaniaethau mwy arwyddocaol rhwng y sgoriau amrywiol pan oedd yr ymgeiswyr wedi symud ymlaen i TGAU neu gymhwyster cyfatebol. Er enghraifft, roedd gwahaniaethau yn nifer y pynciau a basiwyd rhwng y rhai a gwblhaodd a'r rhai na chwblhaodd, ac roedd nifer y llwyddiannau mewn 4 TGAU/cymhwyster cyfatebol yn dangos gwahaniaeth sylweddol.

- Yn gyffredinol, ymddengys fod yr ymgeiswyr a gwblhaodd raglen CBC yn fath o ymgeiswyr sy'n cael eu targedu ar gyfer TAG a chymwysterau cyfatebol, felly gellir rhagweld y byddent yn ymdopi â gofynion y Diploma

Uwch. Fodd bynnag, mae'n bosibl fod y grŵp na chwblhaodd wedi cael anawsterau dysgu cychwynnol neu broblemau eraill.

4. PA GYRSIAU OPSIYNAU A DDILYNODD YR YMGEISWYR?

Awgrymwyd yn Adran 3 fod y cofrestriadau ar gyfer Diploma Uwch 2004-06 ar y cyfan yn nodweddiadol o'r holl garfan ôl-16 mewn ysgolion a cholegau. Mae'r cwestiwn wedyn yn codi i ba raddau mae hyn yn troi'n wir wrth ystyried y rhaglenni a'r cyrsiau a ddilynodd yr ymgeiswyr hyn. Mae'r data isod eto'n dangos y patrwm cyffredinol, ynghyd â'r patrwm ar gyfer gwrywod/benywod ac ysgolion/colegau.

Y cofrestriadau i gyd (%)

TAG/TAAU/BTEC	
TAG	70.6% (71.5)
TAAU/BTEC	20.4% (27.5)
TAG a TAAU	9.0%.(1.0)
O'r rhain, roedd 69.9% (77.8%) o'r TAG wedi eu cyflwyno yn yr ysgolion ac roedd 93.5% (95.1%) o'r TAAU/BTEC wedi eu cyflwyno yn y colegau.	

Tabl 7: y cofrestriadau i gyd o ran Opsiynau

O'r holl rai a gofrestrodd ar gyfer y Diploma Uwch, roedd 65.6% (65.4%) yn fenywod a 34.4% (34.6%) yn wrywod. Roedd rhaniad llai eglur a newidiol o ran y cofrestriadau rhwng ysgolion a cholegau, gyda 56.4% (62.9%) mewn ysgolion a 43.6% (37.1%) mewn colegau, gan nodi bod newid yn y patrymau cofrestru.

Yn amlwg, mae'r rhaglenni a ddilynir wedi'u dylanwadau gan

- y ganran uchel o ymgeiswyr o hyd sy'n dilyn cyrsiau TAG;
- y rhaglenni galwedigaethol (TAAU) sy'n dal i fod wedi'u canolbwyntio yn y colegau;
- y newid bychan ond arwyddocaol tuag at ymgeiswyr yn cyfuno rhaglenni TAG a TAAU/BTEC.

Cyrsiau/rhaglenni a ddilynwyd (%)

Cyrsiau TAG

Mae tablau 8(a) a (b) isod yn dangos y 10 pwnc TAG mwyaf poblogaidd a astudiwyd.

(yn ganran o'r holl gofrestriadau pwnc)		
Saesneg	11.8% (10.5)	(Iaith/Llên/Iaith a Llên)
Hanes	10.6% (10.9)	
Bywydeg	8.1% (9.8)	
Mathemateg	7.6%.(6.8)	

Daearyddiaeth	6.5% (5.8)
Busnes ac Economeg	4.7% (2.3)
Cemeg	4.2% (5.7)
Cymdeithaseg	4.2% (4.3)
Cyfryngau a Ffilm	4.1% (2.1)
Cyfrifiadureg a TGCh	3.8% (9.0)

Tabl 8(a):
y deg pwnc TAR mwyaf poblogaidd a astudiwyd

Dilynodd y 34.4% o ymgeiswyr a oedd yn weddill gyrsiau wedi'u seilio ar 19 pwnc TAG arall.

Yn ogystal, dilynodd 4.3% o'r garfan gyrsiau UG blwyddyn ym Mlwyddyn 12 nad oedd yn arwain at Safon Uwch llawn, roedd prif ganlyniadau'r rhain fel a ganlyn:

Ymchwiliadau Cyffredinol	59.3% (82.5%)
Y Gyfraith	18.5% (1.5%)
Seicoleg	11.1% (1.3%)
Cyfryngau/Astudiaethau Ffilm	7.4% (1.8%)

Tabl 8(b):
cofrestriadau ar gyfer prif bynciau UG TAG

Rhaglenni TAAU

O'r ymgeiswyr a ddilynodd raglenni galwedigaethol:

Roedd 56.9% (84%) wedi'u cofrestru am TAAU, 37.6% (18.4%) am BTEC, a 5.5% am CACHE. Yn fanylach:

- TAAU – cofrestrwyd 45.3% am y Dyfarniad Dwbl 12 Uned 54.7% am y Dyfarniad Sengl 6 Uned;
- BTEC – cofrestrwyd 4.3% am Ddyfarniad Cenedlaethol BTEC National, 22.8% am Dystysgrif Genedlaethol BTEC, a 72.9% am Ddiploma Cenedlaethol BTEC.

Dangosir y rhaglenni mwyaf poblogaidd a ddilynwyd ym mhob un o'r Dyfarniadau hyn yn Nhablau 9(a), (b) a (c).

Dyfarniad BTEC	% cyfanswm y cofrestriadau am y Dyfarniad
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	45.8
Busnes	29.2
Teithio a Thwristiaeth	16.6
Croesawiaeth ac Arlwyo	4.2
TGCh	2.1
Celfyddydau Perfformio	2.1

Tabl 9(a):
Dyfarniadau 12 Uned TAAU

Dyfarniad BTEC	% cyfanswm y cofrestriadau am y Dyfarniad
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	43.1
TG	32.7
Busnes	10.3
TGCh	5.2
Teithio a Thwristiaeth	3.4
Celfyddydau Perfformio	3.4
Cyfryngau: Cyfathrebu a Chynhyrchu	1.9

Tabl 9(b):
Dyfarniadau 6 Uned TAAU

Felly, y rhaglenni TAAU mwyaf poblogaidd **at ei gilydd** oedd:

Dyfarniad 12 a 6 uned TAAU	% cyfanswm y cofrestriadau am y Dyfarniad
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	44.3 (20)
Busnes	18.9 (41.7)
Teithio a Thwristiaeth	9.4 (21.4)
TGCh	3.8 (13.1)
Celfyddydau Perfformio	2.8 (1.2)
Croesawiaeth ac Arlwyo	2.1

Tabl 9(c):
Cyfanswm Dyfarniadau Unedau TAAU

O'r ymgeiswyr a gofrestrwyd am amrywiol Ddyfarniadau Cenedlaethol BTEC (Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma), y prif raglenni a ddilynwyd oedd (Tabl 10):

Dyfarniad BTEC	% cyfanswm y cofrestriadau am y Dyfarniad
Busnes	34.2
TG	25.7
Teithio a Thwristiaeth	9.4
Gofal	3.8
Gwasanaethau Cyhoeddus	5.7
Chwaraeon	5.7

Tabl 10:
Rhaglenni BTEC

Er ei bod hi'n eglur mai prin yw'r ymdrech y mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau'n ei gwneud ar hyn o bryd i integreiddio TAG a TAAU/BTEC yn rhaglenni ymgeiswyr unigol, dylid nodi y bu symudiad bychan tuag at fwy o integreiddio'r rhaglenni, gyda chynnydd o 7.4% yn 2003-05 i 9.0% yn 2004-06. Eto, mae'r rhain yn defnyddio'r cyfuniadau canlynol yn bennaf:

- TAG Astudiaethau'r Cyfryngau a TAAU Busnes, a
- TAG Hanes/Daearyddiaeth a TAAU Teithio a Thwristiaeth.

5. SUT GWNAETH YR YMGEISWYR YNG NGHYDRAN CRAIDD CBC?

A ninnau bellach yn gwybod rhywbeth am gyflawniad blaenorol carfan CBC 2004-06, ynghyd â gwybodaeth am eu rhaglenni astudio, mae'n bryd edrych yn fanwl ar sut gwnaethon nhw yn y cydrannau Craidd amrywiol a'r Opsiynau. Felly, mae'r adran hon yn ystyried cyflawniad yng nghydrannau Craidd CBC, a'r adran ganlynol, Adran 6, gyflawniad yn y Opsiynau. Ystyrir cyflawniad yr ymgeiswyr yn y Craidd o dan 3 phennawd:

- y Sgiliau Allweddol;
- yr Ymchwiliad Unigol;
- y Dyddiaduron/Datganiadau Dilysu.

SGILIAU ALLWEDDOL

Dangosir canlyniadau perfformiad yr ymgeiswyr yn y rhan sgiliau allweddol o Graidd CBC yn Nhabl 11 isod. Mae'r ystadegau hyn wedyn wedi'u cysylltu â'r lefelau cyflawniad cenedlaethol mewn sgiliau allweddol fel y'u dangosir yn y *'Bwletin Ystadegol'* a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 27 Mehefin 2006.

Sgìl Allweddol	Y cofrestriadau i gyd			Gwrywod			Benywod			Ysgolion			Colegau		
	3	2	M	3	2	M	3	2	M	3	2	M	3	2	M
Cyfathrebu	94.4	5.6	0.0	89.4	10.6	0.0	96.8	3.2	0.0	92.3	7.7	0.0	87.5	12.5	0.0
Cymhwyso Rhif	10.4	89.4	0.2	10..0	89.7	0.3	5.6	94.1	0.3	11.1	88.9	0.0	9.7	89.9	0.4
TGCh	13.6	86.4	0.0	16.8	83.2	0.0	4.3	95.7	0.0	5.1	94.9	0.0	24.6	75.4	0.0
Gweithio gydag Eraill	94.9	5.1	0.0	96.9	3.1	0.0	93.9	6.1	0.0	100.0	0.0	0.0	92.1	7.1	0.0
Datrys Problemau	41.6	58.4	0.0	35.1	64.9	0.0	44.8	55.2	0.0	27.9	72.1	0.0	58.7	41.3	0.0
Gwella eich Dysgu eich Hun	87.4	12.6	0.0	91.8	8.2	0.0	84.9	14.8	0.3	99.7	0.3	0.0	71.1	28.5	0.4

Tabl 11:
Cyrhaeddiad sgiliau allweddol yn CBC fesul rhyw ac ysgolion/colegau

Allwedd: *3 = Lefel 3; 2 = Lefel 2; M = Methu ar naill ai lefel 2 neu 3*

Mae'r tabl yn amlygu'r pwyntiau canlynol:

- Targedodd mwyafrif y canolfannau a'r ymgeiswyr Cyfathrebu 94.4% (93.2%), Gweithio gydag Eraill 94.9% (81.9%) a Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun 87.4% (71.7%) i gael tri sgìl ar lefel 3.

- Roedd cyrhaeddiad ar lefel 3 mewn Cymhwyso Rhif 10.4% (6.9%) a TGCh 13.6% (18.0%) yn siomedig.

- Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gyflawni'r 6 sgìl allweddol roedd eu hangen, gyda chanran fechan yn unig yn methu mewn unrhyw sgìl penodol.

- Mae gwahaniaethau arwyddocaol yn codi rhwng gwrywod a benywod mewn TGCh a Datrys Problemau.

- Roedd gwahaniaethau rhwng ysgolion a cholegau'n fwy arwyddocaol mewn TGCh, Datrys Problemau a Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun.

- Yn gyffredinol, gwelwyd newid ym mhatrwm cofrestriadau 'lefel 3' canolfannau, a'r Opsiynau mwyaf poblogaidd bellach yw Cyfathrebu, Gweithio gydag Eraill a Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun.





Beth am y canlyniadau sgiliau allweddol hyn mewn perthynas â'r rhai i ymgeiswyr yng Nghymru i gyd? Y ffigurau cenedlaethol yw:

- Dyfarnwyd dros 168,000 sgìl allweddol i oddeutu 85,700 dysgwr rhwng mis Hydref 2000 a mis Medi 2005, gyda chyfartaledd o 1.9 i bob dysgwr.

- Dyfarnwyd 85,294 cymhwyster sgiliau allweddol yng Nghymru rhwng mis Hydref 2004 a mis Medi 2005. Roedd hyn yn gynnydd o 30,786 dyfarniad yn 2003/04.

- Yn 2004/05, canran y cymwysterau sgiliau allweddol a ddyfarnwyd yng Nghymru oedd:

  ar Lefel 1, 47%;
  ar Lefel 2, 42%;
  ar Lefel 3, 11%.

  Mae hyn yn cymharu â'r ffigurau canlynol am CBC:

  ar Lefel 1, 10.1%
  ar Lefel 2, 45.8%
  ar Lefel 3, 38.4%
  Aflwyddiannus, 5.7%

- Yn 2004/05, ar lefel Genedlaethol:

  roedd 28% o'r dyfarniadau sgiliau allweddol mewn Cyfathrebu
  roedd 22% mewn Cymhwyso Rhif
  roedd 20% mewn TG
  roedd 12% mewn GeDPH
  roedd 12% mewn Gweithio gydag Eraill
  roedd 7% mewn Datrys Problemau.

- Ar gyfer CBC, **llwyddodd 94.3% o'r ymgeiswyr i gyflawni pob un o'r sgiliau allweddol**, gyda chanran fechan yn unig yn methu ym mhob sgìl allweddol.

- Yn genedlaethol, llwyddodd 22,200 unigolyn i gyflawni tri neu fwy o sgiliau allweddol ers mis Hydref 2000, a bron pob un o'r rhain yn 16 oed neu drosodd. Mae hyn yn **13.1%** o'r holl ymgeiswyr. Yn achos **CBC**, llwyddodd **99.6%** o'r cofrestriadau i gyflawni tri neu fwy o sgiliau allweddol.

Mae'r ddwy set yma o ystadegau'n dangos yn eglur iawn i ba raddau y mae CBC wedi hwyluso cyflawni mwy o sgiliau allweddol ac ystod helaethach ohonynt nag yn achos ymgeiswyr nad ydynt yn dilyn CBC yn genedlaethol.

YR YMCHWILIAD UNIGOL – Adroddiad y Prif Safonwr

Cynhyrchodd nifer o ymgeiswyr Ymchwiliadau Unigol o safon uchel iawn. Roedd y gwaith yn ddiddorol, yn amrywiol ac yn ysbryd CBC. Roedd y dewis o ddeunydd enghreifftiol ar y cyfan yn addas, yn hydrin ac yn briodol i Lefel 3. Prif nodweddion yr Ymchwiliadau Unigol a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr oedd:

- Roedd y safon yn gyffredinol yn dda iawn.

- Ymatebodd mwyafrif yr ymgeiswyr yn frwd i'w dewis deitlau gan gymryd y cyfle roedd y gwaith yma'n ei gynnig i ddefnyddio amrediad eang o sgiliau.

- Ar y lefel uchaf roedd hi'n braf gweld hyder yr ymgeiswyr yn eu gallu i drin eu dewis bynciau.

- Roedd amrediad yr Ymchwiliadau a wnaed yn adlewyrchu diddordebau amrywiol yr ymgeiswyr. Roedd cyflwyniadau PowerPoint gyda nodiadau siarad yn helpu i egluro a chadarnhau barn. Cafwyd materion megis gordewdra a beichiogrwydd merched yn eu harddegau ynghyd ag astudiaethau llawn mor heriol ar agweddau ar systemau cyfreithiol a hawliau dynol yng Nghymru a gwledydd eraill.

- Roedd lefel y cyfathrebu yn briodol i lefel 3 ar y cyfan.

- Roedd yr Ymchwiliadau'n berthnasol ac ar y cyfan wedi'u seilio ar faterion. Roedd y rhai a oedd yn cysylltu gwybodaeth leol â dimensiwn arall yn llwyddiannus at ei gilydd

- Gwelwyd sgiliau TGCh ardderchog a'r rheini'n gyfrwng a chyd-destunau delfrydol i bob un o'r Ymchwiliadau.

- Roedd nifer o Ymchwiliadau'n aml wedi'u seilio ar faterion cymdeithasol. Roedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi gweithio'n galed iawn ac wedi cynhyrchu llawer o waith o ansawdd dda.

- Yn y cyflwyniadau gorau, gwnaed defnydd o ddata cynradd ac uwchradd.

- Roedd asesu'r Ymchwiliad Unigol ar y cyfan yn gyson drwyddi draw. Roedd hi'n braf gweld sut ymatebodd rhai ymgeiswyr i'r cyngor a gawsant yn gynnar gan eu mentor/tiwtor.

- Yn y rhan fwyaf o ganolfannau roedd tystiolaeth eglur o safoni mewnol drwy'r Ymchwiliadau.

- Roedd rhai Ymchwiliadau'n cynnwys holiaduron ac arolygon eraill o ddata cynradd. Roedd y rhain yn aml yn amrywio o ran eu canolbwynt, eu cwmpas a'u heffeithlonrwydd.

Gellir gwneud nifer o sylwadau manylach am strwythur ac asesu'r Ymchwiliadau.

Sgiliau a thechnegau

Roedd y defnydd o **fapiau a diagramau** fel arfer yn bwrpasol, gan roi ymdeimlad gwirioneddol o le a/neu gyd-destun i'r Ymchwiliadau. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddiwyd **anodi** i egluro ac i helpu gwerthuso map neu ddiagram. Defnyddiwyd **ystadegau** i wahanol raddau. Yn yr Ymchwiliadau gorau roedd y rhain wedi'u cynnwys yn effeithiol yn rhan o'r testun ac nid rhyw 'atodiad' oeddent er mwyn ateb y meini prawf asesu a dim mwy. Roedd rhai o'r enghreifftiau gorau yn deillio o ddata cynradd a defnyddio holiaduron a oedd wedi'u crynhoi a'u cynrychioli'n effeithlon. Yn aml cyflwynwyd amrediad o **graffiau** a'u cysylltu â'r testun. Yn yr Ymchwiliadau gorau fe'u gwelwyd yn gyfle i gyflwyno arsylwi a gwerthuso. Lle cawsant eu defnyddio, roedd **data ar ffurf tablau** yn berthnasol ac yn ychwanegu at yr Ymchwiliadau. Braf oedd gweld **data cynradd** wedi'i gynnwys – mae'n ychwanegu at ansawdd y gwaith ac roedd yn ffynhonnell gwybodaeth werthfawr er mwyn enghreifftio technegau, a helpu ymgeiswyr i gyrraedd gwerthusiadau a chasgliadau dilys. Gwnaeth nifer o ymgeiswyr holiaduron syml, ond weithiau ni fanteisiwyd ar y cyfle i ddangos y canlyniadau yn y ffordd orau. Gwnaeth nifer o ymgeiswyr ddefnydd priodol o '**gwestiynau agored**' yn eu holiaduron a galluogodd hynny nhw i godi eitemau o ddiddordeb penodol.

Gwybodaeth

Roedd yr **wybodaeth** a gynhwyswyd ym mwyafrif yr Ymchwiliadau'n briodol ac yn gyfoes ac yn deillio o amrediad eang o ffynonellau. Gwnaed defnydd da a perthnasol o **ymchwil ar y we** yn y rhan fwyaf o'r Ymchwiliadau. Mae dethol a defnyddio gwybodaeth **briodol** yn sgiliau pwysig. Fodd bynnag, cyflwynodd rhai ymgeiswyr ormod o safbwyntiau ac roedd y rhain yn cael effaith andwyol ar eglurder a gwerthusiad yr Ymchwiliadau. Roedd ymdrin â'r wybodaeth yn systematig yn amlwg a hynny wedi'i drefnu a'i gynllunio gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

Dealltwriaeth

Dangoswyd **dealltwriaeth** i raddau amrywiol ac roedd yn amlwg yn adlewyrchu gallu'r ymgeiswyr. Roedd hi'n amlwg fod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech frwd, wedi elwa ar y profiad ac yn gallu **cymhwyso gwybodaeth yn ystyrlon a defnyddio sgiliau'n briodol.** Roedd rhai ymgeiswyr yn dda am ddisgrifio ond yn llai hyderus wrth **egluro** neu'n wir roi **achosion a chasgliadau i'r deunydd** a oedd wedi'i gynnwys. Mae hwn yn sgil lefel uchel, ond mae'n bwysig wrth roi tystiolaeth o ddealltwriaeth, yn arbennig ar Lefel 3.

Gwerthusiadau a chasgliadau

Roedd hi'n amlwg bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi elwa ar wneud yr Ymchwiliadau ac wedi gwella eu **gallu i ddod i farn.** Roedd y **casgliadau**'n aml yn ystyrlon ac yn **mynd i'r afael â'r teitlau,** a'r rhai gorau wedi'u seilio ar ystyried yr wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ac ar **ymchwil bersonol** (holiadur ac arsylwi personol). Roedd rhai o'r **casgliadau ychydig yn fyr ac yn syml** ac roedd rhai o'r ymgeiswyr gwannaf yn gorddibynnu ar sylwadau a barn bersonol yn hytrach nag ar yr **wybodaeth wedi'i dogfennu a chyfeiriadau at yr wybodaeth a'r data a oedd wedi'u cynnwys ynghynt yn y gwaith**. Yn ogystal â chasgliad ffurfiol, roedd rhai o'r ymgeiswyr mwy galluog wedi ceisio cynnwys **ystyried a gwerthuso personol** gydol yr Ymchwiliadau, er enghraifft mewn perthynas â graffiau, diagramau, ffotograffau ac ati. Fodd bynnag, mewn nifer o Ymchwiliadau, mae'n amlwg fod angen rhagor o waith ar y maen prawf hwn. **Mae angen i'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod gwerthuso ac adfyfyrio'n ofynion hanfodol ar gyfer llwyddiant ar Lefel 3.**

Rhai sylwadau pellach am yr Ymchwiliad Unigol

Teitlau

Gwelwyd amrediad eang o deitlau gwreiddiol ac unigol. Roedd hyn yn adlewyrchu amrediad eang Opsiynau'r ymgeiswyr a'u meysydd diddordeb yn ogystal. Mae amrediad o deitlau fel hyn eto'n gwbl briodol ac yn ysbryd CBC. Fel rheol y teitlau wedi'u seilio ar 'ragdybiaethau' neu 'gwestiynau' oedd y rhai mwyaf effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd yr ymgeiswyr yn 'cadw ar y trywydd' ac yn dychwelyd at y teitl o hyd yn yr adran gwerthuso a chasgliadau. Felly roeddent yn gallu ennill credydau llawn yn erbyn y meini prawf asesu. Y cyngor i ymgeiswyr yw **cadwch y teitlau'n syml ac osgoi gorgymhlethu pethau.**

Y 'Safbwynt Cymreig' a'r defnydd o safbwyntiau 'ehangach'

Roedd y rhain yn briodol ar y cyfan. Y dull mwyaf effeithiol yw lle mae'r ymgeisydd yn dewis **pwnc i'w astudio** ac yn **dangos** ei natur, ei broblemau ac yn rhoi **enghreifftiau priodol** wedi'u codi o Gymru ac o ran arall o'r byd neu ar raddfa wahanol y tu allan i Gymru. Mae hyn yn fwy priodol na defnyddio llu o gymariaethau sy'n aml yn drysu ymgeiswyr ac yn gwneud iddynt ddilyn ysgyfarnogod.

Y DYDDIADURON/DATGANIADAU DILYSU

- Yn gyffredinol, roedd rheolaeth a threfn y dyddiaduron yn galluogi'r safonwr i symud o CEB i AGG ac ABCh ac ati'n rhwydd.

- Darparwyd ffurflenni WB2 wedi'u llenwi'n eglur a thaflenni gorolwg ychwanegol, ac roedd hynny'n ddefnyddiol. Defnyddiodd rhai ymgeiswyr y Gymraeg wrth gofnodi ac roedd hyn yn gweddu'n naturiol i ysbryd y broses gofnodi. Cadwodd ychydig o ymgeiswyr eu cofnodion yn Gymraeg a Saesneg gan symud yn rhwydd o un iaith i'r llall.

- Roedd yr holl ddogfennaeth angenrheidiol ar gael gan gynnwys y llofnodion sydd eu hangen ar gyfer dilysu. Roedd y rhan fwyaf o'r dyddiaduron wedi bod drwy broses safoni mewnol eglur a chyson.

- Roedd y Modiwl Iaith wedi'i ddogfennu'n dda ac roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dangos cynnydd yn eu dewis iaith. Roedd yr ieithoedd a astudiwyd yn cynnwys Sbaeneg, Almaeneg, Japanëeg ac Iaith Arwyddion. Roedd y gwerthusiad angenrheidiol fel arfer wedi digwydd yn dilyn y Modiwl Iaith. Roedd dilysiadau athrawon fel arfer yn dod gyda'r rhain.

- Roedd ABCh fel arfer wedi cael ei gofnodi a'i werthuso'n gywir gan yr ymgeiswyr. Roedd y materion allweddol i gyd wedi'u cwmpasu yn CEB ac ABCh. Roedd Cyfranogiad Cymunedol unwaith eto'n effeithiol ac roedd tystiolaeth fod yr ymgeiswyr wedi'i fwynhau. Roedd y gweithgareddau a ddewiswyd a'r amrediad ohonynt yn ddiddorol ac yn creu cryn argraff. Roedd hyn yn aml yn cyd-fynd yn effeithlon â sgìl allweddol GGE.

- Roedd tystiolaeth dda wedi'i chasglu gyda AGG. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ymgymryd â her busnes rhyngrwyd. Roedd yr amrediad o leoliadau yr ymgymerwyd â nhw a'r sail tystiolaeth yn gadarn a'r holl ddilysiadau allanol yn eu lle. Roeddent yn drylwyr ac wedi'u gwerthuso gan yr ymgeiswyr.

- Mae tystiolaeth fod sgiliau allweddol yn cael eu cynnwys yn rhan o raglenni dysgu. Mae cysondeb yn yr asesu.

Rhestr wirio o nodweddion cadarnhaol

- Ar y cyfan gwelwyd safonau nodedig ledled Cymru.
- Gwelliannau sylweddol ar waith y llynedd.
- Roedd tystiolaeth o asesu ffurfiannol a bod canolfannau/ymgeiswyr yn gweithredu arno.
- Roedd y gwaith, ar y cyfan, wedi'i asesu'n gywir ac roedd hen ddigon o dystiolaeth i ddangos sut a pham gwnaed asesiad, yn aml gan ddefnyddio ffurflenni a sylwadau ychwanegol am y gwaith.
- Roedd yr Asesiadau Unigol yn dda at ei gilydd. Roedd materion megis gordewdra a merched yn eu harddegau'n beichiogi'n ochr yn ochr ag Ymchwiliadau heriol ar agweddau ar systemau cyfreithiol a hawliau dynol yng Nghymru a gwledydd eraill. Roedd rhai'n cynnwys holiaduron ac arolygon eraill o ddata gwreiddiol a oedd yn amrywio o ran effeithlonrwydd eu canolbwynt a'u cwmpas.
- Roedd nifer o Ymchwiliadau'n cynnwys holiaduron a defnyddiwyd y canlyniadau mewn amryw o ffyrdd. Efallai bod eisiau ychydig mwy o feddwl gyda'r holiaduron (am gwmpas, diben, natur y cwestiynau ac ati).
- Roedd cofnodion ymgeiswyr yn berthnasol i gydrannau Craidd CBC wedi'u cynnwys mewn ffolios perthnasol wedi'u cyflwyno'n dda ac wedi'u rhwymo'n unigol.
- Roedd cofnodion dyddiadur ar gyfer materion allweddol ABCh a CEB yn eglur ac wedi'u trefnu'n dda, sy'n dynodi bod yr ymgeiswyr wedi cael amrediad da o gyfleoedd dysgu a phrofiadau. Ar y cyfan roedd y gwaith yn nodedig, wedi'i ymchwilio a'i gyflwyno'n dda.
- Roedd yr asesu ar y cyfan yn gyson, yn gywir ac wedi'i wneud yn effeithiol. Enghraifft o arfer da oedd y ffurflenni asesu a oedd wedi'u cynnwys gydag ychydig o'r Ymchwiliadau, gyda sylwadau am sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, gwerthuso ac ati. Syniad da fyddai cynnwys y rhain wrth asesu pob Ymchwiliad. Byddai hyn yn

helpu'r asesu mewnol ac yn galluogi'r safonwr i weld sut a pham y daethpwyd i farn arbennig. Roedd safoni mewnol wedi digwydd fel arfer.

Pryderon

- Roedd Ymchwiliadau o nifer o ganolfannau wedi'u hasesu'n gywir ac yn cynnwys marcio/sylwadau manwl gan yr athro – OND, weithiau nid oedd tystiolaeth o safoni mewnol.
- Prin oedd y marcio/sylwadau gan rai canolfannau. Yn aml, nid oedd arwydd cyffredinol i ddangos sut roedd y ganolfan wedi dod i'w phenderfyniad neu dystiolaeth o safoni mewnol.
- Lle roedd gwaith ymgeisydd yn crafu llwyddo neu'n wir yn methu, roedd mwy o angen am ragor o gefnogaeth o ran adborth. Yn ddi-os roedd ymgeiswyr wedi gweithio'n galed iawn. Roeddent wedi canolbwyntio ar faterion allweddol a'u hastudio'n drylwyr, gan archwilio achosion, maint ac effaith yn gyffredinol. Yn aml roeddent hefyd yn cloi drwy ysgrifennu gwerthusiad byr. Roedd nifer o Ymchwiliadau'n cael eu gwanhau oherwydd nad oedd digon o sgiliau a thechnegau'n cael eu dangos. Mae rhagor o arweiniad o ran adborth yn debygol o fod yn llwyddiannus wrth roi sylw i'r pwyntiau hyn.
- Un mater sy'n cynnig her i Gydlynwyr yw problem 'cyrsiau a champysau'. Er enghraifft, mae rhannu arfer dda'n anodd rhwng campysau. Un maes lle gellid gwneud gwelliannau yw gwneud dogfennaeth yn fwy eglur. Gallai fod o gymorth i fabwysiadu fformat cyffredin i'r amrywiol gofnodion dyddiadur heb golli unrhyw wreiddioldeb y byddid yn dymuno ei gadw ac ati.
- Roedd nifer o'r ymgeiswyr yn geirio eu gwaith fel 'Ymchwiliad am .....' Byddai'r rhain yn elwa ar ganolbwynt tynnach, mae'n debyg wedi'i seilio ar gwestiwn allweddol cryf.
- Llofnodion ar rai dyddiaduron – byddai eglurhad/sylwadau byr o ran cefnogaeth yn gwella'r broses hon.
- Ac eithrio'r pwyntiau hyn, mae ymgeiswyr o'r rhan helaethaf o'r canolfannau'n amlwg yn mwynhau'r hyn y maent yn ei wneud ac ar y cyfan yn ei wneud yn dda.

Casgliadau

- Mae canolfannau ar y cyfan yn dilyn yr arweiniad a roddir yn y Fanyleb, yn enwedig ar amcanion asesu. Roedd yr ymgeiswyr at ei gilydd wedi gweithio'n frwdfrydig ac wedi elwa ar wneud y gwaith.

- Yn eironig, mewn rhai achosion roedd ymgeiswyr wedi methu cael y dyfarniad llawn oherwydd bod sgiliau allweddol naill ai ar goll neu heb fod yn ddigon cryf i ateb cymhwyster allanol. Fodd bynnag, gallai peth o'r gwaith yn y dyddiaduron tystiolaeth, yn enwedig yn Menter Tîm neu Cyfranogiad Cymunedol, fod wedi ateb gofynion y sgiliau allweddol ehangach gydag ychydig o arweiniad gan y tiwtor. Felly dyma gyfleoedd wedi'u colli, gan ddangos bod angen i gydlynwyr 'weithio'n graffach' lle mae cyfleoedd dysgu priodol yn codi'n naturiol.

- I grynhoi, credir i'r safonau cyffredinol wella a bod gan diwtoriaid well dealltwriaeth o botensial ac o ganlyniad eu bod yn fwy hyderus ynghylch dod i farn briodol a chywir.

6. SUT GWNAETHON NHW YN EU OPSIYNAU?

Yng nghyrsiau a rhaglenni opsiynau'r ymgeiswyr y mae'r rhan arall o CBC sydd wedi'i asesu. Ar y cyfan mae hyn yn cynnwys dau lwybr posibl - yr un 'academaidd' neu 'gyffredinol' (TAG) a'r 'galwedigaethol' (TAAU, BTEC ac ati). Fodd bynnag, mewn nifer fechan o achosion, cyfunodd ymgeiswyr gyrsiau o'r ddau lwybr. Mae'r canlyniadau'n dangos y canlynol:

Canlyniadau cyffredinol

- % llwyddo yn y Craidd: 587/635 = 92% (91%)
- % llwyddo yn y Diploma: 559/635 = 88% (78.7%)

Ceir dadansoddiad manwl o gyflawniad ymgeiswyr mewn dyfarniadau TAG a TAAU yn Nhablau 12(a) a 12(b) sy'n dilyn.

Canlyniadau fesul rhyw, ysgolion/colegau

Gradd	Cofrestriadau i gyd	Benywod	Gwrywod	Ysgolion	Colegau
A	25.6 (19.0)	25.6 (22.0)	25.8 (23.4)	30.8 (23.6)	11.8 (6.7)
B	27.9 (23.7) 53.5 (42.7)	28.7 (28.9) 54.3 (50.9)	26.3 (19.9) 52.1 (43.3)	29.6 (26.1) 60.4 (49.7)	23.7 (17.1) 35.5 (23.8)
C	23.8 (30.7) 77.3 (73.4)	23.5 (27.8) 77.8 (78.7)	24.4 (28.8) 76.5 (72.1)	20.6 (27.3) 81.0 (77.0)	32.2 (39.6) 67.7 (63.4)
D	14.8 (18.2) 92.1 (91.6)	14.7 (15.5 92.5 (94.2)	15.2 (17.4) 87.3 (89.5)	12.4 (15.4) 93.4 (92.4)	21.3 (25.6) 89.0 (89.0)
E	5.7 (6.7) 97.3 (98.3)	5.4 (4.7) 97.9 (98.9)	6.3 (8.5) 93.6 (98.0)	4.6 (6.2) 98.0 (98.6)	8.5 (7.9) 97.5 (96.9)
U	2.7 (1.7) 100%	2.1 (1.1) 100%	6.4 (2.0) 100%	2.0 (1.4) 100%	2.5 (3.1) 100%

Tabl 12(a):
TAG

Gradd	Cofrestriadau i gyd	Benywod	Gwrywod	Ysgolion	Colegau
A	21.6 (3.6)	22.3 (1.5)	19.0 (42.5)	42.2 (0.0)	6.5 (3.8)
B	25.4 (3.6) 47.0 (7.2)	25.8 (4.5) 48.1(6.0))	23.8 (0.0) 42.8 (12.5))	31.1 (50.0 73.3 (50.0)	21.3 (1.3) 27.8 (5.1)
C	22.6 (30.7) 69.6 (31.6)	21.2 (24.2) 69.3 (30.2))	28.5 (25.0) 71.3 (37.5)	13.3 (50.0) 85.5 (100.0)	29.5 (23.1) 57.3 (28.2)
D	16.9 (36.6) 86.5 (68.2)	17.6 (34.8) 86.9 ((65.0))	14.3 (43.7) 85.6 (81.3)	11.1 (0.0) (96.6 100.0)	21.3 (38.5) 78.6 (66.7)
E	6.6 (19.5) 93.1(87.7)	7.1 (19.7) 94.0 (84.7)	4.7 (18.6) 90.3 (100.0)	3.4 (0.0) 100.0 (100.0)	9.8 (20.5) 88.4 (87.2)
U	6.9 (12.3) 100%	6.0 (15.3) 100%	9.7 (0.0) 100%	0.0 (0.0) 100%	11.6 (12.8) 100%

Tabl 12(b):
TAAU

Mae'r ystadegau TAG a TAAU, BTEC ac ati'n amlygu'r canlynol:

- I'r holl raglen CBC Uwch mae'r data'n dangos cyfradd llwyddo uchel i'r Craidd (92%) a'r Diploma (88%) am TAG a TAAU.

- Roedd gwahaniaethau o ran cyflawniad gwrywod a benywod, a'r benywod yn gwneud ychydig yn well na'r gwrywod yn TAG.

- Daeth gwahaniaethau mwy arwyddocaol i'r golwg rhwng ysgolion a cholegau, gyda'r cyflawniad mewn ysgolion yn uwch na mewn colegau. Fodd bynnag, gwelwyd cyflawniad yn TAG a TAAU yn gwella'n arwyddocaol mewn ysgolion a cholegau.

7. PAM METHODD RHAI YMGEISWYR?

O'r ymgeiswyr hynny a fethodd gyflawni Diploma Uwch CBC, y canlynol oedd y 'rhesymau' dros eu methiant (o ran % y grŵp methu), fel y mae'r cyflawniad yn y cydrannau amrywiol yn dangos:

- Methodd 35.5% (50.8%) oherwydd eu diffyg llwyddiant mewn sgiliau allweddol, o'r rhain y ffactorau pwysicaf oedd Cymhwyso Rhif, TGCh a Datrys Problemau.

- Methodd 36.8% (41.3%) oherwydd iddynt fethu yn eu Opsiynau.

- Methodd 26.3% (9.6%) am 2 neu fwy o'r rhesymau hyn.

- Methodd 0% (3.2%) oherwydd yr Ymchwiliad Unigol.

- Methodd 1.4% (0.0)% oherwydd elfennau cwricwlaidd y Craidd, h.y. dyddiaduron, datganiadau dilysu.

Mae anawsterau gyda sgiliau allweddol a'r Opsiynau'n parhau i fod yn broblem i rai ymgeiswyr.



8. AMCANGYFRIFON ATHRAWON

Gofynnwyd i athrawon ragweld a fyddai ymgeiswyr yn 'llwyddo' neu'n 'methu' yn Nyfarniad Uwch CBC. Mae hyn yn bwysig a defnyddiol wrth nodi canfyddiadau athrawon o ran pa mor llwyddiannus y buon nhw a'u hymgeiswyr yn ystod CBC. Yn anuniongyrchol hefyd mae'n rhoi tystiolaeth bellach i ni am y meysydd dysgu hynny lle gall fod problemau i ymgeiswyr.

Cynhyrchodd yr amcangyfrifon yr wybodaeth ganlynol:

- Llenwodd 12 o'r 21 canolfan a gofrestrodd ymgeiswyr am ddyfarniad 2006 amcangyfrifon graddau. Ni roddodd 6 choleg a 3 ysgol unrhyw wybodaeth. Roedd y 12 canolfan a gwblhaodd y ffurflen yn rhoi gwybodaeth am 421 ymgeisydd, hynny yw 66.5% o'r holl gofrestriadau.

- Roedd 94% o amcangyfrifon yr athrawon yn gywir, ffigwr uchel.

- Roedd yr amcangyfrifon a oedd yn anghywir yn syrthio i ddau gategori:

  Roedd 77% wedi **goramcangyfrif** cyflawniad yr ymgeiswyr. Roedd 75% o'r rhain oherwydd bod yr ymgeiswyr wedi cyflawni'n waeth na'r disgwyl yn yr Opsiynau (roedd dros 70% o'r rhain yn y rhaglenni galwedigaethol a 25% ar gyfer TAG), a 25% oherwydd iddynt fethu gydag un neu ragor o sgiliau allweddol.

  Roedd 22% o'r athrawon a amcangyfrifodd yn anghywir wedi gwneud hynny drwy amcangyfrif perfformiad yr ymgeiswyr **yn rhy isel** (unwaith eto, gwnaeth dros dri chwarter hyn yn y maes galwedigaethol).

9. MATERION GWEINYDDOL

Yn ystod 2005-06 cyflwynodd Tîm CBC raglen HMS a oedd yn canolbwyntio ar 'weinyddu'. Teimlid y gallai natur gymharol gymhleth cymhwyster rhychwantol fel CBC gynnig her yn weinyddol. Yn unol â hynny, rhoddwyd arweiniad ar amrediad o faterion gweinyddol o'r ffurflenni i'w llenwi, eu diben, amseriad eu llenwi a'u dychwelyd, a'r problemau a allai godi. Er y bu peth cynnydd yn y cyfnod yn arwain at ddyfarnu'r canlyniadau, mae'n eglur bod nifer o broblemau'n parhau ymhlith rhai canolfannau. Mae'r rhestr sy'n dilyn yn cynnwys rhai enghreifftiau o wallau gweinyddol a gododd yn ystod y flwyddyn. Dylid pwysleisio o'r newydd fod y rhan fwyaf o'r canolfannau'n cyflawni'r holl ofynion gweinyddol.

- Mewn un enghraifft, cafwyd cyfarwyddyd i dynnu ymgeiswyr yn ôl ym mis Mai/Mehefin ond pan gyhoeddwyd canlyniadau dros dro ym mis Awst cwynodd y ganolfan nad oedd wedi bwriadu i'r ymgeiswyr gael eu tynnu'n ôl. Llwyddodd pob un yn y Diploma Uwch.

- Mewn enghraifft arall, cofrestrwyd ymgeiswyr ar gyfer y Diploma Uwch ond ni chofrestrodd y ganolfan nhw ar gyfer y 3 sgìl allweddol ychwanegol i gael y Diploma (roedd gan yr ymgeiswyr hyn 6 sgìl allweddol yn barod ar lefel 2 ac roeddent wedi cyflawni Diploma Canolradd ym mis Mawrth ond dynnent fod wedi cael eu cofrestru ar gyfer y tri sgìl allweddol ar lefel 3).

- Cofnodwyd bod un ymgeisydd yn fenyw gydag un corff dyfarnu ac yn wryw gyda chorff dyfarnu arall. Felly nid oedd y canlyniadau'n cyfateb â'i gilydd.

- Nododd canolfan wrth gofrestru Rhan 2 fod ei hymgeiswyr i gyd yn sefyll eu sgiliau allweddol gydag OCR ym mis Mehefin 06. Fodd bynnag, gwnaeth y ganolfan TG gyda CBAC ym mis Mehefin 05.

- Ar gyfer ei chanlyniadau sgiliau allweddol, roedd gan un ymgeisydd yr un enw canol, yr un cyfenw a'r un dyddiad geni; fodd bynnag, roedd ei henw cyntaf wedi'i sillafu'n wahanol ar gyfer un canlyniad sgiliau allweddol yn unig.

- Newidiodd canolfan yr ymgeiswyr o Ddiploma BTEC i Dystysgrif BTEC ond ni chofrestrwyd yr ymgeiswyr yn iawn ar gyfer y Dystysgrif BTEC - felly nid ymddangoson nhw ar y ffeil canlyniadau o'r corff dyfarnu.

- Cofrestrodd un ganolfan ei hymgeiswyr ar gyfer BTEC drwy un campws ond yna cofrestrwyd yr un ymgeiswyr ar gyfer eu sgiliau allweddol drwy gampws arall felly roedd hi'n anos cyfateb y data.

- 'Anghofiodd' nifer o ganolfannau i gofrestru eu hymgeiswyr ar gyfer sgiliau allweddol neu 'anghofio' i hawlio dirprwyon. Felly roedd yr ymgeiswyr a gofrestrwyd i wneud CBC heb obaith ei gyflawni.

- Yn achos un ymgeisydd ag enw dwbl cofnodwyd yr enw llawn ar gyfer un corff dyfarnu ond dim ond rhan o'r enw ar gyfer un arall.

- Cofrestrwyd tri ymgeisydd ar gyfer y Diploma Uwch ac aseswyd eu Hymchwiliadau Unigol ar lefel 3 ond pan gyhoeddwyd y canlyniadau dros dro dywedodd y ganolfan iddi gofrestru'r tri yma ar gyfer y Diploma Canolradd.

- Cofrestrodd un ganolfan ei holl ymgeiswyr ar gyfer yr Opsiynau gyda champws arall.

- Byddai nifer o ymgeiswyr wedi methu'r Opsiynau oherwydd nad oedd CBAC wedi cael gwybod eu bod eisoes wedi cael 4 TGAU. Codwyd hyn gan Dîm CBC.

Canlyniad gwallau fel y rhain yw bod gwybodaeth yn dal i gael ei gwirio'r diwrnod cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, gyda galwadau ffôn a negeseuon e-bost brys yn cael eu cyfnewid rhwng Swyddfeydd CBC a nifer o Gyrff Dyfarnu TAG, Galwedigaethol a Sgiliau Allweddol. Mae cyfnod o ryw fis ar ôl i'r canlyniadau dros dro gael eu cyhoeddi i ganolfannau godi cwestiynau am y canlyniadau. 'Ymholi am ganlyniadau' yw'r enw ar y cyfnod hwn ac mae'n dod i ben ar neu oddeutu 20.9.06.

10. FELLY, PA GASGLIADAU Y GALLWN DDOD IDDYNT WEDI CBC 2006?

- **Amcanion a chyflawni:** dau o amcanion sylfaenol CBC yw (a) cynyddu cyfradd yr ymgeiswyr sy'n dal ati a (b) codi lefelau cyflawni. Braf gweld bod nifer gynyddol yn dal ati, ond mae'n dal yn rhy isel (ni chwblhaodd 24% y rhaglen lawn a chael dyfarniad). Fodd bynnag, mae'r rhesymau a roddir pam nad yw rhai ymgeiswyr yn cwblhau rhaglen CBC yn rhoi arwyddion o ran ble gall canolfannau a Thîm CBC ganolbwyntio eu sylw er mwyn datrys y broblem hon sy'n lleihau'n raddol. Er enghraifft, canfyddiadau am ofynion Craidd CBC, yn enwedig y sgiliau allweddol a'r Ymchwiliad Unigol. Cyflawnodd y rhai a gwblhaodd y rhaglen gyflawn gyfraddau llwyddiant uchel iawn gyda 88% yn cael y Diploma Uwch, ac mae'r gyfradd llwyddiant o ran cyflawni'r chwe sgìl allweddol angenrheidiol yn dangos canlyniad cadarnhaol rhaglen addysgu-dysgu CBC.

- **Cyflawniad blaenorol:** mae data Cyfnod Allweddol 3 a TGAU yn awgrymu bod gan garfan 2004-06 safon cyflawniad blaenorol gymharol uchel. Mân wahaniaethau'n unig oedd rhwng yr is-grwpiau (gwryw/benyw, ysgolion/colegau) ond roedd tystiolaeth eglur eto bod yr ymgeiswyr na chwblhaodd raglen CBC wedi cyflawni ychydig yn is na'r rhai a'i cwblhaodd. Mae'r setiau hyn o ddata'n awgrymu y gallai gwybodaeth am gyflawniad blaenorol fod yn werthfawr i athrawon wrth benderfynu pa ymgeiswyr ddylai gael sylw penodol.
- **Cyrsiau a ddilynwyd:** dilynodd mwyafrif yr ymgeiswyr gyrsiau TAG, er bod y mwyafrif yn llai nag yng nghylch 2003-05. Yn ogystal, roedd cydberthyniad agos rhwng y math o gwrs a'r math o ganolfan, hynny yw, ysgolion neu golegau, gyda mwyafrif helaeth TAG yn cael eu cynnig mewn ysgolion a'r TAAU/BTEC mewn colegau. Dilynodd nifer fechan ond sydd wedi cynyddu

(9%) o'r ymgeiswyr raglenni TAG a TAAU/BTEC. Yn y ddau fath o raglen, mae'r 10 pwnc TAG uchaf yn dangos cydbwysedd rhwng pynciau dyniaethau a mathemateg/gwyddoniaeth, ond hefyd gyda phresenoldeb y pynciau mwy newydd, Cymdeithaseg a Chyfryngau/Ffilm. Ar y cyfan dilynodd y 4.3% o'r ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer safon UG (na chariwyd ymlaen yn ddyfarniad Safon Uwch TAG llawn) bynciau 'cyffredinol', gyda thuedd amlwg tuag at addysg 'gyffredinol'. Pynciau TAAU oedd y rhan fwyaf o'r rhaglenni galwedigaethol, yn rhaglenni 12 a 6 Uned, a'r tri mwyaf poblogaidd oedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Busnes a Teithio a Thwristiaeth. Mae patrymau rhaglennu tebyg yn cael eu dilyn yn BTEC. Yn amlwg mae angen estyn y ddarpariaeth alwedigaethol i rannau eraill o feysydd llafur ysgolion a cholegau.

- **Sgiliau allweddol:** yn gyffredinol, roedd y canlyniadau yn y sgiliau allweddol yn dda iawn ymhlith yr ymgeiswyr a gyflawnodd y chwe sgìl gofynnol, ac yn y gyfradd llwyddo mewn Cyfathrebu, Gweithio gydag Eraill a Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun; dyma'r sgiliau allweddol a ddefnyddid amlaf ar lefel 3. Roedd y cyflawniad mewn Cymhwyso Rhif, TGCh a Datrys Problemau'n llai boddhaol. Hefyd roedd gwahanol batrymau cyrhaeddiad rhwng gwrywod/benywod mewn rhai sgiliau allweddol. Mae cyn lleied o ymgeiswyr mewn ysgolion fel na ellir dod i gasgliadau. Fodd bynnag, y casgliad cyffredinol o'r data yw bod rhai canolfannau a'u hymgeiswyr wedi cyflawni safonau uchel.

- **Ymchwiliadau Unigol:** er bod nifer o ganolfannau'n awgrymu bod rhai o'u hymgeiswyr yn teimlo bod yr Ymchwiliad Unigol yn anodd a'i bod yn ffactor bwysig wrth gyfrannu at 'ollwng' CBC, cyflwynodd mwyafrif yr ymgeiswyr Ymchwiliadau Unigol da. Fodd bynnag, nododd y safonwyr ei bod hi'n bryder na wneir llawer o ddefnydd o sgiliau dadansoddi a chyflwyno, a'r gallu i werthuso a dod i gasgliadau. Yn amlwg, dyma ddau faes lle gellid rhoi rhagor o gyngor i ymgeiswyr. Efallai y bydd yr enghreifftiau o waith ymgeiswyr i'w ddosbarthu gyda'r adroddiad hwn o ddefnydd i athrawon yn y broses hon.

- **Dyddiaduron/cofnodion/datganiadau dilysu:** roedd y gwaith a gyflwynwyd yn dangos bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi cwblhau cofnodion effeithiol o'u gwaith, ac ymddengys bod Cyfranogiad Cymunedol, Menter Tîm a Gweithio gyda Chyflogwr wedi creu brwdfrydedd a gwaith o safon uchel ymhlith ymgeiswyr.

- **Modiwl laith:** er bod gwelliannau'n amlwg, dyma ran wannaf rhaglen Graidd CBC o hyd. Y prif bryderon yw (a) faint o amser a dreulir ar y Modiwl, a (b) diffyg tystiolaeth bod cynnydd wedi digwydd rhwng dechrau a diwedd y cwrs.

- **Pam methodd rhai ymgeiswyr?** yn ôl y disgwyl ymhlith y rhesymau a roddwyd gan ganolfannau am beidio â chwblhau, roedd methu ymdopi â'r sgiliau allweddol yn ffactor pwysig o ran cyfrannu at 'fethu', yn enwedig Cymhwyso Rhif, TGCh, a Datrys Problemau, er y cafodd nifer o ganolfannau lwyddiant gyda'r rhain. Eleni eto, roedd nifer o ganolfannau'n dal i'w chael hi'n anodd addasu i ofynion gweinyddol CBC mewn perthynas â'r sgiliau allweddol, er enghraifft, peidio â chofrestru ymgeiswyr tan yn hwyr yn y

flwyddyn academaidd - wrth gyflwyno portffolios yn gynnar mae modd ailgyflwyno i gyrff dyfarnu sgiliau allweddol. Ar y llaw arall, ni chododd yr anawsterau a ragwelwyd o ran yr Ymchwiliadau Unigol a'r dyddiaduron/datganiadau dilysu. I gloi, mae rhai ymgeiswyr yn dal i gael problemau wrth gwblhau eu rhaglenni Opsiynau , a hynny'n gysylltiedig o bosibl â chanfyddiad yr ymgeiswyr am y llwyth gwaith. Rhaid nodi hefyd bod rhai ymgeiswyr yn ystyried bod Craidd CBC yn llai 'pwysig' na'u rhaglenni Opsiynau – felly pan fyddant o dan bwysau tua diwedd y cwrs, maent yn 'rhoi'r gorau' i'r rhan 'lai pwysig'. Fodd bynnag, ymddengys fod yr agwedd hon yn lleihau'n raddol.